



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref 20171220

Prif Swyddogion Cynllunio
Penaethiaid Rheoli Datblygu
Swyddogion Technegol a Gweinyddol

20 Rhagfyr 2017

Annwyl Gyfaill

Ysgrifennais atoch ym mis Awst i roi gwybod ichi am y newidiadau i'r gwasanaethau ceisiadau cynllunio ar-lein yng Nghymru o fis Ebrill 2018. Rwy'n ysgrifennu atoch yn awr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y gwasanaeth newydd.

Enw'r gwasanaeth newydd yw "Ceisiadau Cynllunio Cymru", a chyfeiriad y wefan fydd www.llyw.cymru/ceisiadaucynllunio a www.gov.wales/planningapplications. Mae'r cyfeiriad gwefan hwn ychydig yn wahanol i'r cyfeiriad a hysbyswyd o'r blaen.

O'r blaen, fe wnes i awgrymu y byddai'n ddefnyddiol ichi hysbysu'ch timau mewnol ym maes TG a chyhoeddi ar y we, i roi gwybod iddynt am y newidiadau hyn ac am yr angen i barhau i gyfathrebu'n effeithiol â'r gwasanaeth newydd, ac am yr angen i roi'r dolenni newydd ar eich gwefannau. Bydd defnyddwyr y gwasanaeth yn ceisio sicrwydd pan fyddant yn profi'r newid hwn a bydd y camau uchod yn helpu i sicrhau eu bod yn cael hyd i'r gwasanaeth newydd.

Bydd y Porth Cynllunio'n anfon e-bost at bobl sy'n cyflwyno ceisiadau yng Nghymru drwyddo gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiad y gwasanaeth newydd, pryd bydd gwasanaethau'r Porth Cynllunio yng Nghymru'n dod i ben a'r camau y bydd angen arnynt eu cymryd i ddefnyddio'r gwasanaeth newydd.

Ein prif nod wrth lunio'r gwasanaeth newydd yw cynnig plattform ceisiadau cynllunio sy'n bodloni anghenion ymgeiswyr ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly, rydym wedi ceisio osgoi gwneud unrhyw newidiadau a allai

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

effeithio ar gysylltiadau'ch meddalwedd TGCh. Hyd yma, rydym wedi llwyddo yn hyn o beth.

Serch hynny, mae'n bosibl y bydd newidiadau yn y dyfodol yn effeithio ar eich meddalwedd TGCh. Bydd y Porth Cynllunio yn cysylltu â ni, chi ac â'ch cyflenwyr TGCh cyn gynted â phosibl, os bydd angen. Hoffwn eich annog i drafod y newidiadau â'ch cyflenwyr TGCh i roi rhybudd iddynt fod gwasanaeth newydd i Gymru'n cael ei lunio, a'u hannog i gysylltu â'r Porth Cynllunio ymlaen llaw er mwyn bod yn barod i gael gwybodaeth am geisiadau cynllunio drwy'r gwasanaeth newydd ym mis Ebrill 2018. Byddai o fudd i chi roi cadarnhad iddynt o'n bwriad i osgoi unrhyw effaith ar feddalwedd TGCh.


Ni fydd y gwasanaeth newydd yn cynnig rhai gwasanaethau ategol sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys y "tŷ rhyngweithiol", sy'n gyfarwydd i lawer ohonoch. Nid yw'r "tŷ rhyngweithiol" presennol yn gydnaws â gofynion diogelwch TGCh modern a dyfeisiau symudol.

Rydym wedi ystyried y posibilrwydd o gaffael adnodd arall ond nid oedd hyn yn fasnachol hyfyw. Yn hytrach, bydd y canllawiau ar brosiectau datblygu i ddeiliaid tai cyffredin, sydd ar gael ar hyn o bryd drwy'r "tŷ rhyngweithiol", ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar ôl cydweithio â swyddogion yr Awdurdodau Cynllunio Lleol ac ymgynghorwyr cynllunio, rydym wedi achub ar y cyfle, wrth lunio'r gwasanaeth newydd, i fireinio a symleiddio rhai ffurflenni cais. Cewch weld y mân newidiadau hyn yn Atodiad A. Rydym wedi diweddarau'r Cwestiynau Cyffredin a roddwyd ichi'n gynharach, a chewch eu gweld yn Atodiad B.

Cewch fwy o wybodaeth am ddatblygiad y gwasanaeth newydd drwy gysylltu â [Kris Hawkins](#).

Yn gywir



Neil Hemington
Prif Gynlluniwr
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru

Atodiad A

Rydym wedi dileu ac uno rhai o'r cwestiynau ar y ffurflenni cais cynllunio ar ôl casglu adborth o gyfarfod rheolwyr datblygu De Cymru a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2017 a chydweithio ag asiantwyr ac ymgynghorwyr cynllunio ym mis Mai a mis Mehefin, ac ystyried y sylwadau a ddaeth i law yn ystod gweithgorau rheolwyr datblygu yn ystod 2016.

Wrth roi'r newidiadau ar waith rydym wedi defnyddio dulliau nad ydynt yn effeithio ar systemau TGCh. Hynny yw, rydym wedi addasu rhai cwestiynau fel eu bod yn gorfod cael eu hateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn unig, heb gwestiynau atodol, er mwyn osgoi unrhyw newidiadau i'r scema.

Felly, dylech nodi y bydd y cwestiynau a ganlyn wedi'u dileu neu'u huno ac na chaiff y data perthnasol eu casglu ar ffurflenni'r gwasanaeth newydd.

POB FFURFLEN CANIATÂD CYNLLUNIO, LLAWN AC AMLINELLOL, A PHOB CAIS AM DYSTYSGRIF CYFREITHLONDEB

- Dilëir y cwestiwn "A oes trefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod gwastraff y gellir ei ailgylchu'n cael ei storio a'i gasglu ar wahân i wastraff arall?"
- Dilëir y cwestiwn "A yw'n fwrriad creu mynedfa newydd neu addasu mynedfa er mwyn galluogi cerddwyr i gyrraedd neu adael y briffordd gyhoeddus?"
- Dilëir y tabl Parcio, a gofynnir i'r ymgeisydd roi manylion parcio ar y cynlluniau sy'n cyd-fynd â'r cais.
- Dilëir y cwestiwn ynglŷn ag unedau preswyl (presennol ac arfaethedig) a gofynnir i'r ymgeisydd roi manylion unedau arfaethedig ar y cynlluniau cysylltiedig.
- Dilëir y cwestiwn ynglŷn â "tir yr amheuir ei fod wedi'i halogi ar ran o'r safle neu'r safle cyfan".

FFURFLENNI CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG

- Dilëir y cwestiwn "A yw'n adeilad eglwysig?"
- Dilëir y cwestiwn "A fydd unrhyw orffeniadau ar waliau mewnol, nenfydau neu lorïau'r adeilad (e.e. plastr, estyllod)?"

FFURFLENNI CANIATÂD CYNLLUNIO I DDEILIAID TAI

- Dilëir y cwestiwn "Deunyddiau".

Atodiad B

Ceisiadau cynllunio

Bydd gwasanaeth ar-lein newydd “Ceisiadau Cynllunio Cymru” yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2018 a fydd yn galluogi defnyddwyr i ymgeisio am ganiatâd cynllunio a chydysyniadau cysylltiedig.

Defnyddiwch y [Porth Cynllunio](#) i ymgeisio am ganiatâd cynllunio a chydysyniadau cysylltiedig tra bo'r gwasanaeth newydd yn cael ei greu.

- Bydd y gwasanaeth newydd yn blatfform ar gyfer ceisiadau cynllunio a chydysyniadau cysylltiedig yn unig. Bydd canllawiau a gwybodaeth ar ddatblygiadau a ganiateir, y gwasanaeth cynllunio a'r rheoliadau adeiladu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Tŷ Rhyngweithiol?

- Ni fydd y Tŷ Rhyngweithiol yn cael ei gynnwys gan ei fod yn seiliedig ar hen dechnoleg nad yw'n cydweddu â dyfeisiau symudol. Fodd bynnag, bydd canllawiau cyfatebol ar ddatblygiadau a ganiateir ar gael ar wefan Lywodraeth Cymru.

Amharu ar y gwasanaeth, neu ei golli?

- Bydd y gwasanaeth newydd yn defnyddio'r un dechnoleg â'r porthol cynllunio presennol. Ni ddylai fod unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae systemau'r awdurdod cynllunio lleol yn lawrlwytho neu'n adalw data ceisiadau.
- Byddwn yn lleihau nifer y cwestiynau ar rai ffurflenni nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml. Byddwn yn rhoi mwy o fanylion ynghylch y newidiadau hyn. Wrth wneud y newidiadau hyn, byddwn yn osgoi effeithio ar y broses ymgeisio.
- Wrth inni fynd ati i ddatblygu'r wefan newydd, byddwn yn profi'r gwasanaeth yn gyson er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn cyn iddo gael ei lansio. Byddwn yn sicrhau bod y broses o drosglwyddo i'r gwasanaeth newydd yn un esmwyth, gan wneud hynny pan nad oes galw mawr am y gwasanaeth. Ni ddylai defnyddwyr gael unrhyw broblemau o ran defnyddio'r gwasanaeth.

Proffil defnyddiwr

- Ar hyn o bryd, y bwriad yw defnyddio cronfa ddata bresennol y Porth Cynllunio. Mae hynny'n golygu na fydd yn rhaid i ddefnyddwyr ailgofrestru er mwyn defnyddio'r gwasanaeth newydd.
- Efallai y bydd angen i ddefnyddwyr gadarnhau eu manylion cofrestru cyn dechrau ymgeisio neu barhau â chais, er bod y gofyniad hwn yn

ymwneud fwy â'r angen i gydymffurfio â rheoliadau diogelu data'n gyffredinol yn hytrach na gofynion y gwasanaeth newydd.

Ceisiadau cynllunio drafft cyfredol

- Bydd ceisiadau cynllunio drafft cyfredol ar gael ar y gwasanaeth newydd.

Aros cyn dechrau gwneud gwaith ar gais newydd?

- Nid oes angen saib cyn parhau â'ch cais ac nid oes angen newid unrhyw un o'ch arferion gweithio. Ar ôl i'r gwasanaeth newydd ddechrau, bydd yn dangos eich ceisiadau ar gyfer Cymru yn awtomatig. Bydd unrhyw geisiadau drafft ar gyfer Lloegr ar gael o hyd drwy'r Porth Cynllunio.

Paratoi a chyflwyno ceisiadau yng Nghymru drwy'r Porth Cynllunio ac i'r gwrthwyneb

- Ni fydd ffurflenni ar gyfer Cymru ar gael ar y Porth Cynllunio yn y dyfodol, ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno ceisiadau i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru drwyddo. Bydd y gwasanaeth ar gyfer cyflwyno ceisiadau cynllunio yng Nghymru yn wasanaeth ar wahân ar gyfer Cymru yn unig.
- Bydd yn bosibl newid o un system i'r llall yn hawdd, er y bydd yn rhaid ichi gofrestru bob tro, er diogelwch.

Awdurdodau cynllunio lleol

- Hyd yma, rydym wedi llwyddo i beidio â newid y gwasanaeth ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, a byddwn yn parhau yn yr un modd.